



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## Cylchlythyr 005/2018

Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

Mehefin 2018

## CYNLLUNIO AR GYFER SAFLEOEDD SIPSIWN, TEITHWYR A SIEWMYN

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r cylchlythyr hwn yn diweddarau cyfarwyddyd ar agweddau cynllunio ar nodi safleoedd cynaliadwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae hefyd yn amlinellu sut y gall awdurdodau cynllunio a Sipsiwn a Theithwyr weithio gyda'i gilydd i gyflawni'r nod hwn. Mae'n disodli'r cyngor a geir yng Nghylchlythyr 30/2007 "*Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn a Theithwyr*", Cylchlythyr 78/91 "*Travelling Showpeople*" (Saesneg yn unig) a Chylchlythyr 76/94 "*Gypsy Sites Policy and Unauthorised Camping*" (Saesneg yn unig) a ddiddymir drwy hyn.

### DIFFINIAD

2. Ceir y diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' at ddibenion y Cylchlythyr hwn yn adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Ystyr Sipsiwn a Theithwyr yw:
  - (a) Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys—
    - (i) Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, a
    - (ii) Aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), a
  - (b) Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.
3. Bwriad y diffiniad uchod yw sicrhau bod Sipsiwn Romani ethnig a Theithwyr Gwyddelig wedi'u cynnwys, yn ogystal â'r rheini o unrhyw grŵp ethnig sy'n arfer ffordd nomadig o fyw. Nid oes angen i aelodau'r cymunedau hyn ddangos eu bod yn arfer ffordd nomadig barhaol o fyw, o reidrwydd, i gael eu hystyried yn Sipsiwn neu'n Deithwyr.
4. Mae'r diffiniad hefyd yn cynnwys Siewmyn Teithiol. Gall Teithwyr Newydd hefyd gael eu cynnwys yn y diffiniad os gallant ddangos traddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartrefi symudol.

5. Pobl fusnes hunangyflogedig yw Siewmyn Teithiol sy'n teithio'r wlad yn cynnal ffeiriau, yn bennaf yn ystod misoedd yr haf. Er bod natur beripatetig i'w gwaith, mae angen safleoedd parhaol ar Siewmyn Teithiol ar gyfer gorchwylion megis storio a chynnal a chadw eu hoffer, ac at ddibenion preswyl. Yn aml, gelwir safleoedd o'r fath yn iardiau neu'n aeafleoedd gan y Siewmyn eu hunain. Er hyn, mae'n rhaid i'r safleoedd hyn fod ar gael i'w defnyddio drwy gydol y flwyddyn.
6. Mae'r rhan fwyaf o Siewmyn yn aelodau o Urdd Siewmyn Prydain Fawr sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddilyn cod ymarfer o ran y defnydd o'u safleoedd. Mae aelodaeth o'r Urdd yn rhoi esemptiad i Siewmyn rhag gofynion trwyddedu safleoedd Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 pan fyddant yn teithio at ddibenion busnes, neu pan fyddant yn meddiannu gaeafle ar y tir gydag offer am ryw gyfnod rhwng dechrau mis Hydref mewn unrhyw flwyddyn a diwedd mis Mawrth y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, dim ond wrth deithio at ddibenion eu busnes y cânt arfer hawliau datblygu a ganiateir o dan Ran 5 o Atodlen 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995. Mae'n ofynnol iddynt felly, wneud cais am ganiatâd cynllunio i sefydlu pob safle arall.

## **SIPSIWN A THEITHWYR – CYD-DESTUN**

7. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol ledled Cymru i sicrhau y bodloni yr 'egwyddor datblygu cynaliadwy' (diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain). Mae Adran 4 o'r Ddeddf yn pennu nifer o amcanion llesiant i awdurdodau geisio eu cyflawni er mwyn bodloni'r egwyddor hwn. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys cyflawni 'Cymru o gymunedau cydlynus', sy'n cynnwys cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd wedi eu cysylltu'n dda, a 'Chymru â diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', sy'n cynnwys cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg.
8. Mae tai yn fater sylfaenol sy'n effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru, gan gynnwys ein cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod amrywiaeth eang o lety ar gael i fodloni anghenion pob aelod o'r gymuned. Mae'n adlewyrchu ymrwymiad y Llywodraeth i sicrhau cyfle cyfartal i bob rhan o'r gymuned ac yn yr achos hwn, dylai Sipsiwn a Theithwyr allu cael mynediad cyfartal at lety sy'n briodol i'w diwylliant, yn yr un modd â holl aelodau eraill y gymuned.

9. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Ymdrinnir â'r ymrwymiad hwn drwy sicrhau bod cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd ar gael i ddatblygu safleoedd newydd.<sup>1</sup> Mae newidiadau i ddeddfwriaeth drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 wedi cefnogi'r amcan hwn hefyd.
10. Mae darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn un o sawl mater allweddol y mae angen ymdrin â nhw drwy'r broses gynllunio. Pan fo diffyg safleoedd priodol a diffyg darpariaeth mewn ardaloedd awdurdodau lleol, caiff hyn effaith niweidiol sylweddol ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr. Bydd darparu safleoedd priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael effaith fuddiol ar allu'r gymuned i gael gafael ar wasanaethau hanfodol eraill. Gallai darparu safleoedd priodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr gael effaith fuddiol hefyd ar y gymuned sefydlog drwy leihau nifer yr heriau cyfreithiol a'r costau a ysgwyddir wrth herio gwersylloedd diawdurdod.
11. Nid yw'r diffiniad o safle Sipsiwn a Theithwyr at ddibenion y Cylchlythyr hwn yn cynnwys annedd (h.y. tŷ sy'n dod o dan Ddosbarth Defnydd C3 o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref [Dosbarthiadau Defnydd] 1987 [fel y'i diwygiwyd]). Bodlonir anghenion y Sipsiwn a'r Teithwyr hynny sydd am fyw mewn llety brics a mortar drwy ddarparu tai priodol. Mae'r dull a ddarperir o fewn y system gynllunio i awdurdodau lleol<sup>2</sup> sicrhau y ceir cyflenwad digonol o dir ar gyfer tai ym Mholisi Cynllunio Cymru.
12. Mae'n bosibl y bydd rhai Sipsiwn a Theithwyr yn dymuno dod o hyd i, a phrynu, eu safleoedd eu hunain i'w datblygu a'u rheoli. Gallai cynnydd yn nifer y safleoedd preifat sydd wedi eu hawdurdodi hefyd ryddhau lleiniau ar safleoedd awdurdodau lleol ar gyfer y Sipsiwn a Theithwyr hynny â'r angen mwyaf am ddarpariaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, erys angen parhaus i ddarparu mwy o safleoedd cyhoeddus nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae angen safleoedd o'r fath ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr nad ydynt yn gallu prynu a datblygu eu safleoedd eu hunain, neu y mae'n well ganddynt rentu, ac er mwyn darparu safleoedd tramwy a mannau aros dros dro lle y gall Sipsiwn a Theithwyr aros yn gyfreithlon wrth deithio.

---

<sup>1</sup> Ceir rhagor o wybodaeth ar ble y gallai'r defnydd o gyllid Grant Cyfalaf Safleoedd fod yn berthnasol yn y ddogfen Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (cyfeiriwch at Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth) a hefyd yn adran Sipsiwn a Theithwyr gwefan Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/?skip=1&lang=cy>

<sup>2</sup> Sylwer nad yw'r awdurdod lleol yn gyfrifol am y swyddogaeth gynllunio ar dir sydd o fewn ardal Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro nac Eryri yng Nghymru. Mae cyfrifoldebau awdurdodau cynllunio ar gyfer yr ardaloedd hyn yn dod o fewn cylch gwaith yr Awdurdodau Parc Cenedlaethol perthnasol yn hytrach na'r awdurdod lleol.

13. Mae darparu mwy o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, boed yn rhai cyhoeddus neu breifat, yn fater i awdurdodau lleol ymdrin ag ef, gan fod yn rhaid iddynt ganfod atebion lleol ar gyfer anghenion lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cyfres o wybodaeth ategol sy'n cwmpasu grantiau a dogfennau canllawiau<sup>3</sup> a fydd o gymorth i awdurdodau lleol wrth iddynt fodloni eu cyfrifoldebau o ran darparu llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

## **DYLETSWYDD I DDARPARU SAFLEOEDD**

14. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hasesu'n briodol ac y diwellir yr angen a nodwyd am leiniau. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol arfer eu pwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol, i sicrhau y darperir safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer yr angen nas diwallwyd. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd y bydd angen safleoedd ychwanegol o eiddo awdurdodau lleol, ond pan fydd eu hangen, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn cael eu darparu.
15. Er mwyn gallu asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn briodol, mae adran 101 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cyflwyno gofyniad i awdurdodau lleol gynnal asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn eu hardaloedd neu sy'n ymgasglu yno. Dylid cynnal asesiadau o'r fath o leiaf bob 5 mlynedd ar ôl mabwysiadu'r asesiad cychwynnol yn 2016. Mae'n rhaid iddynt fod yn destun ymgynghoriad â Sipsiwn a Theithwyr a rhaid eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w cymeradwyo, ynghyd ag adroddiad yn nodi sut y cynhaliwyd yr asesiad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau manwl y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth baratoi asesiadau o'r fath, dan y teitl: 'Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr - Canllawiau' (GTAA).
16. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn a bod ganddynt bolisiau ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn yn eu cynlluniad datblygu. Bydd canfyddiadau'r GTAA yn ystyriaeth allweddol yn y broses cynllunio, monitro ac adolygu cynllun datblygu awdurdod. Bydd y GTAA yn rhan o sail dystiolaeth y cynllun datblygu a fydd yn destun craffu cyhoeddus drwy'r broses o baratoi cynllun ac archwilio gan y cyhoedd. Mater i'r Arolygydd a benodir yw archwilio'r cynllun datblygu i ystyried faint o bwysau i'w roi i unrhyw GTAA sy'n ymddangos, a sut y mae'n berthnasol i'r cynllun sydd o'i flaen.

---

<sup>3</sup> Ceir cyfeiriadau at ddogfennau canllaw Llywodraeth Cymru ar Sipsiwn a Theithwyr yn Atodiad A.

17. Mae'r cylchlythyr cynllunio hwn yn amlinellu pwysigrwydd:

- cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn rhagweithiol yn y GTAA a'r broses gynllunio drwy Gynlluniau Cynnwys Cymunedau wrth baratoi cynllun datblygu a sicrhau bod y cyfathrebu yn uniongyrchol ac yn hygyrch;
- ystyried addasrwydd safleoedd posibl, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau cymunedol addas ar gyfer meddiannwyr;
- canllawiau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwneud ceisiadau cynllunio;
- sut y gallai fod o fudd i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol i baratoi GTAA i nodi anghenion llety a darparu safleoedd addas yn ystod y broses gynllunio;
- bod awdurdodau cynllunio yn nodi lleoliadau addas mewn cynlluniau datblygu ar gyfer safleoedd parhaol a safleoedd tramwy sy'n bodloni anghenion Sipsiwn a Theithwyr;
- cynnwys polisi yn seiliedig ar feini prawf mewn cynlluniau datblygu a fydd yn rhoi rhesymeg glir a theg ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio Sipsiwn a Theithwyr; a
- chyfrifoldebau awdurdodau lleol o dan ddeddfwriaeth Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a chyfraith achos.

18. Drwy ddefnyddio'r Cylchlythyr hwn a dwy ddogfen canllaw Llywodraeth Cymru a nodir isod, dylai fod gan awdurdodau lleol yr hyn sydd ei angen arnynt i gynnal asesiadau llety a diwallu'r anghenion a nodwyd am leiniau.

- Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr - Canllawiau<sup>4</sup>; a
- Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru<sup>5</sup>.

19. Ceir trosolwg o'r broses gynllunio i'w dilyn gan awdurdodau lleol wrth ddarparu ar gyfer safleoedd carafanau Sipsiwn a Theithwyr yn Niagram 1.

---


<sup>4</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>5</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

Diagram 1 – Cynllunio ar gyfer Safleoedd Carafanau Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

Sail Gwybodaeth  
y Cynllun Datblygu

Cynllun Datblygu



## DARPARU'R SAIL DYSTIOLAETH

20. Daeth asesu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd pan fo'r asesiad yn nodi angen, yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae dogfen Llywodraeth Cymru "*Cynnal Aseidiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr - Canllawiau*"<sup>6</sup> yn nodi'r broses arfaethedig ar gyfer asesu'r anghenion hyn a sut i gynnal Aseidiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA).
21. Rhan bwysig o gynnal GTAA, a fydd hefyd yn cefnogi cynllunio ar gyfer safleoedd, yw cadw cofnodion cywir o safleoedd awdurdodedig a diawdurdod yn ardal yr awdurdod lleol. Dylai awdurdodau lleol ddiweddarau yn rheolaidd y system Cyfrif Carafanau Cymru Gyfan pan fydd safleoedd yn codi i sicrhau bod y data mor gadarn â phosibl.
22. Mae'r GTAA yn darparu'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth sy'n galluogi awdurdodau lleol i asesu faint o lety ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr y mae'n anghenrheidiol ei ddarparu wrth baratoi eu cynlluniau datblygu. Gallai aseidiadau a gynhelir ar sail ranbarthol ddarparu manteision o ran cysondeb y dull a ddefnyddir ar draws awdurdodau lleol i nodi'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a'r arbedion cost cysylltiedig (gweler paragraffau 26 i 28 i gael rhagor o wybodaeth ar weithio ranbarthol).
23. Mae canlyniadau'r GTAA yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol nodi nifer yr aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr y mae angen lleiniau ychwanegol arnynt ar unwaith, o fewn 5 mlynedd, a thros gyfnod y cynllun datblygu. Bydd hyn yn cynnwys:
- y mathau o lety sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r angen (h.y. safleoedd preswyl neu safleoedd tramwy, safleoedd penodol ar gyfer Siewmyn Teithiol neu Sipsiwn Romani/Teithwyr Gwyddelig ac ati);
  - nifer yr aelwydydd sydd eisoes yn byw yn yr Awdurdod Lleol mewn llety anaddas (h.y. llety gorlawn, byw mewn tai confensiynol er eu hatgasedd at frics a mortar ac ati);
  - nifer yr aelwydydd ar ddatblygiadau diawdurdod neu ar safleoedd awdurdodedig a chaniatâd dros dro, sy'n debygol o gynyddu'r angen nas diwallwyd os na roddir caniatâd cynllunio;
  - cyfradd debygol y bydd aelwydydd yn ffurfio; a
  - nifer yr aelwydydd â chyfle gwirioneddol i symud i'r math o lety y maent yn ei ffafrio, a allai ryddhau mwy o leiniau neu gapasiti mewn cartrefi confensiynol.

---

<sup>6</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.



24. Bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried eu dyletswyddau statudol eraill hefyd, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â digartrefedd o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a'u rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

25. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal GTAA o leiaf unwaith bob 5 mlynedd. Fodd bynnag, mae gan Awdurdodau Lleol yr hyblygrwydd i gynnal GTAA yn amlach os nodir newid sylweddol yn lefel yr angen yn yr ardal.<sup>7</sup> Pan fo amgylchiadau o'r fath yn codi, dylai awdurdodau lleol ymdrin â'r newid hwn mewn angen drwy ddarparu safleoedd priodol. Gallai hyn arwain at adolygiad o gynllun datblygu awdurdod er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg yn y ddarpariaeth o safleoedd drwy'r broses gynllunio.

## **GWEITHIO RHANBARTHOL**

26. Dylai awdurdodau lleol ystyried a fyddai gweithio ar y cyd o fudd er mwyn paratoi GTAA sy'n cwmpasu rhanbarth.<sup>8</sup> Gallai hyn fod yn briodol oherwydd symudiadau rhwng ardaloedd lle mae awdurdodau lleol cyfagos yn ymwybodol bod eu poblogaethau Sipsiwn a Theithwyr yn symud yn rheolaidd ar draws ffiniau gweinyddiaethau. Gallai GTAA rhanbarthol helpu i roi gwell dealltwriaeth o batrymau teithio ac anghenion llety ar draws awdurdodau lleol. Gallai hyn arwain at greu dull cyffredin a chysondeb ar draws yr ardal wrth nodi angen a dyrannu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr addas mewn cynlluniau datblygu. Yn benodol, gallai asesiad rhanbarthol ddarparu tystiolaeth i gynorthwyo awdurdodau lleol i reoli gwersylloedd diawdurdod, gan y byddant yn gallu dangos eu bod wedi ystyried anghenion llety ar gyfer darpariaeth tramwy ar sail rhanbarthol. Gallai trafodaethau ar draws ffiniau rhwng awdurdodau lleol ar GTAA unigol hefyd helpu i nodi ymhle y gellid diwallu anghenion tramwy. Gallai gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol hefyd arwain at arbedion o ran cost a gwella'r data sydd ar gael i asesu angen.

---

<sup>7</sup> Gweler Atodiad A i gael manylion canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y dylai awdurdodau lleol gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r canllawiau hyn yn cynnwys cyngor ar yr amgylchiadau pan ddylai awdurdodau lleol adolygu a diweddarau eu Hasesiadau ym Mhennod 6.

<sup>8</sup> Gweler Atodiad A i gael manylion canllawiau Llywodraeth Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y dylai awdurdodau lleol gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y gall awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd yn rhanbarthol i baratoi Asesiadau o'r fath.

27. Mae GTAA rhanbarthol yn darparu'r sail dystiolaeth ar anghenion llety i hysbysu'r gwaith o baratoi cynllun datblygu. Mae'n hanfodol bod y data sy'n codi o asesiadau a gynhelir ar y cyd yn parhau i allu cael ei ddatgyfuno i lefel yr awdurdod lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod pob partner yn parhau i feddu ar ei sail dystiolaeth ei hun a bod modd cynhyrchu gwybodaeth sy'n benodol i'r sefyllfa ym mhob awdurdod lleol unigol. Mae'n rhaid datgyfuno'r data i lefel awdurdod lleol gan fod deddfwriaeth o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn pennu bod awdurdodau lleol unigol yn gyfrifol am ddiwallu'r anghenion llety a nodwyd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Ni ddylai fod unrhyw gyfnewid safleoedd preswyl parhaol felly, rhwng awdurdodau partner wrth baratoi eu cynlluniau datblygu eu hunain.

28. Yn ogystal â pharatoi GTAA, mae dulliau ar waith i gefnogi gweithio rhanbarthol yn y system gynllunio. Gallai gweithio rhanbarthol, yn hynny o beth, gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol pan fo materion mwy na materion lleol i'w hystyried. Ystyrir y gallai'r gweithio rhanbarthol hwn gefnogi'r gwaith o nodi safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. O ran cydweithredu ar GTAA, mae'n rhaid i unrhyw weithio rhanbarthol a wneir drwy'r system gynllunio sy'n arwain at nodi darpariaeth safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gael ei ddatgyfuno yn ôl i lefel asesiadau o angen awdurdodau lleol unigol. Ni ddylai fod unrhyw gyfnewid safleoedd parhaol rhwng awdurdodau partner yn ystod y broses hon, am y rhesymau a roddir yn y paragraff blaenorol.

## **CYNLLUNIAU DATBLYGU**

### **Cynnwys y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr**

29. Ar gyfnod cynnar yn y gwaith o baratoi cynlluniau datblygu, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio drafod anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn uniongyrchol â'r Sipsiwn a'r Teithwyr eu hunain, eu cyrff cynrychioli a grwpiau cefnogi lleol. Dylid cydnabod nad yw Sipsiwn a Theithwyr yn un gymuned a bod ganddynt wahanol werthoedd ac agweddau ac mae eu dewisiadau o ran safleoedd yn wahanol.

30. Darperir rhestr o gysylltiadau perthnasol yn Atodiad A ond dylai'r awdurdod lleol a'r sector gwirfoddol ddatblygu sail gwybodaeth leol, ynghylch y gwahanol gymunedau yn yr ardal a'r rhai sy'n teithio drwy'r ardal. Er enghraifft, mae rhai awdurdodau cynllunio yn defnyddio canlyniadau ymgynghoriadau rheolaidd drwy swyddogion rheoli safleoedd, swyddogion cyswllt Sipsiwn a Theithwyr a fforymau amlasiantaeth.

31. Dylai awdurdodau cynllunio sicrhau eu bod yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn rhagweithiol yn y broses o baratoi cynllun datblygu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'w safbwyntiau. Bydd hyn yn helpu i osgoi tensiynau a gwrthdaro a allai godi pe byddai datblygiad neu wersyll diawdurdod yn codi.<sup>9</sup>
32. Mae Adran 63 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio baratoi eu cynllun datblygu yn unol â Chynllun Cynnwys Cymuned, lle byddant yn nodi eu polisi ar ymgysylltu â'u cymuned wrth baratoi'r cynllun datblygu. Dylai awdurdodau cynllunio sefydlu trefniadau i sicrhau bod eu cyfathrebu â Sipsiwn a Theithwyr yn uniongyrchol ac yn hygyrch i sicrhau y ceir cyn lleied â phosibl o wrthdaro a thensiwn. Mae'n debyg mai ymgynghori wyneb yn wyneb yw'r modd mwyaf effeithiol o gasglu safbwyntiau'r cymunedau hyn.
33. Dylid cydnabod nad yw cymunedau Sipsiwn a Theithwyr wedi eu trefnu mewn modd sy'n hawdd nodi pwy allai gynrychioli buddiannau unrhyw gymuned benodol, felly mae datblygu gwybodaeth ac ymddiriedaeth leol yn bwysig. Mae nodi a deall anghenion grwpiau sy'n ei chael yn anodd, am nifer o resymau, i ymgysylltu â'r prosesau cynllunio yn hanfodol. Un o'r anawsterau hyn yw diffyg adnoddau. Yn yr un modd â holl sectorau eraill y gymuned, dylai awdurdodau cynllunio ystyried pa ffynonellau cyllid sydd ar gael i grwpiau o'r fath. Un ffynhonnell bosibl o gymorth a allai helpu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr i gymryd rhan yn fwy effeithiol yn y system gynllunio yw Cymorth Cynllunio Cymru (ceir y manylion cyswllt yn Atodiad D o'r cylchlythyr hwn).
34. Bydd angen cytuno ar bob Cynllun Cynnwys Cymunedau yn rhan o'r Cytundeb Cyflawni ar gyfer y cynllun datblygu â Llywodraeth Cymru. Mater i bob awdurdod cynllunio unigol yw penderfynu pa yn a fyddant yn ymgynghori â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a'u cynnwys yn rhan o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau a gyflwynir, gan ddibynnu ar y materion sy'n codi yn eu hardalpedd lleol. Os yw awdurdod cynllunio yn methu â dangos ymdrechion i ymgysylltu ag unrhyw gymunedau Sipsiwn a Theithwyr pan ddylai fod wedi gwneud hynny, byddai'r awdurdod hwnnw mewn perygl o fethu â chydymffurfio â phroffion gweithdrefnol y mae'n rhaid glynu atynt er mwyn i gynllun datblygu gael ei fabwysiadu.

---

<sup>9</sup> Ceir rhagor o ganllawiau ar ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷch cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn nogfen Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru Llywodraeth Cymru (cyfeiriwch at Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth)

## Nodi Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

35. Pan fo GTAA yn nodi angen nas diwallwyd, dylai awdurdodau cynllunio neilltuo digon o safleoedd mewn cynlluniau datblygu i sicrhau y gellir diwallu'r gofynion a nodwyd am leiniau at ddefnydd preswyl a/neu dramwy. Bydd angen i awdurdodau cynllunio ddangos bod safleoedd yn addas ac y gellid eu darparu o fewn yr amserlenni a nodwyd. Pan fydd polisïau o'r fath ar waith, bydd mwy o sicrwydd i bawb dan sylw wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.
36. Wrth nodi safleoedd, dylai'r awdurdod cynllunio weithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Dylai hyn gynnwys annog Sipsiwn a Theithwyr a thirfeddianwyr preifat i gyflwyno ymgeiswyr yn rhan o'r broses o baratoi cynllun datblygu (Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol<sup>10</sup>).
37. Mae materion yn ymwneud â chynaliadwyedd safleoedd yn bwysig ar gyfer iechyd a lles Sipsiwn a Theithwyr, nid yn unig o ran materion amgylcheddol ond hefyd i gynnal a chefnogi rhwydweithiau teuluol a chymdeithasol. Gallid rhoi ystyriaeth i faterion canlynol a restrir isod ymlith eraill. Nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a dylid ystyried gofynion polisïau cynllunio cenedlaethol eraill a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol:
- cyfleoedd ar gyfer twf mewn unedau teuluol;
  - hybu'r gallu i'r safle a'r gymuned leol gydfodoli'n heddychlon ac yn integredig;
  - mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg;
  - mynediad at gyfleustodau gan gynnwys dŵr, gwaredu dŵr gwastraff a gwasanaethau casglu gwastraff;
  - mynediad drwy gerdded a beicio, trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau modur preifat (gan gynnwys cerbydau brys);
  - manau chwarae diogel ar safle addas gerllaw neu ar y safle ei hun<sup>11</sup>;
  - cyfranau at rwydwaith o safleoedd tramwy sy'n lleihau'r angen i deithio pellter hir neu ffurfio gwerysll diawdurdod;
  - peidio â lleoli safleoedd ym mharthau sydd â pherygl o lifogydd C2 a dim ond ystyried lleoliadau o fewn parth sydd â pherygl o lifogydd C1 yn unol â'r cyfarwyddyd a geir yn TAN 15<sup>12</sup>, o ystyried bod carafanau yn arbennig o fregus; ac

---

<sup>10</sup> Gweler paragraff 5.3.4. Argraffiad 2. Awst 2015. Llywodraeth Cymru.

<https://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?skip=1&lang=cy>

<sup>11</sup> Mae canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru Llywodraeth Cymru, y cyfeirir atynt yn Atodiad A a thrwy'r Cylchlythyr hwn, yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut y dylid dylunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a sut y dylid darparu cyfleusterau ar safleoedd. Dylid darllen y canllawiau hyn ar y cyd â'r Cylchlythyr hwn wrth benderfynu a yw safleoedd posibl ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn gynaliadwy.

<sup>12</sup> Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Gorffennaf 2004. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

- ystyried ardaloedd sydd wedi eu dynodi yn fannau o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol a lleol ar gyfer bioamrywiaeth a thirwedd – gweler paragraffau 56-57 isod.

38. Wrth benderfynu ymhle i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried yn gyntaf leoliadau cynaliadwy addas o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau presennol, sy'n cynnig mynediad at wasanaethau lleol e.e., lleoliadau addysg, gwasanaethau iechyd a siopau.
39. Ceir ystyried safleoedd yng nghefn gwlad, i ffwrdd o aneddiadau presennol, ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr os oes diffyg lleoliadau cynaliadwy addas o fewn neu gerllaw ffiniau aneddiadau presennol. Wrth asesu addasrwydd safleoedd o'r fath, dylai awdurdodau lleol fod yn realistig ynghylch argaeledd, neu argaeledd tebygol, dewisiadau amgen i'r car wrth ddefnyddio gwasanaethau lleol. Byddai mynd ati mewn ffordd rhy llym i gymhwyso polisïau cenedlaethol neu bolisïau cynllun datblygu sy'n ceisio lleihau teithiau mewn ceir i rwystro, mewn gwirionedd, unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliad cefn gwlad yn amhriodol. Dylid ystyried safleoedd yn eu cyd-destun ac o'u cymharu â seilwaith lleol, a maint a dwyster y boblogaeth, i sicrhau eu bod yn gymesur â chymunedau mewn aneddiadau lleol.
40. Mae'n rhaid asesu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd pob safle a ystyrir yn ddewisiadau i'w ddyrannu'n safleoedd mewn cynllun datblygu, yn unol â gofynion yr arfarniad cynaliadwyedd. (Mae Adran 3 o'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol<sup>13</sup> yn cyflwyno proses yr arfarniad cynaliadwyedd; mae adran 5 yn esbonio'r broses ar gyfer Casglu Tystiolaeth ac Amcanion; ac mae adran 6 yn esbonio'r broses yng nghyd-destun Opsiynau Strategol a'r Strategaeth a Ffefrir. Wrth ystyried safleoedd i'w dyrannu mewn cynlluniau datblygu, bydd angen i awdurdodau cynllunio ystyried hefyd y dogfennau canllaw canlynol gan Lywodraeth Cymru:
- Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru<sup>14</sup>;
  - Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru - Canllawiau<sup>15</sup>; a
  - Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr - Canllawiau.<sup>16</sup>

<sup>13</sup> <https://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?skip=1&lang=cy>

<sup>14</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>15</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>16</sup> Cyfeiriwch at Bennod 5. Ceir rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon yn Atodiad A.

41. Dylid nodi safleoedd, boed yn rhai cyhoeddus neu'n rhai preifat, gan roi sylw i ystyriaethau priffyrdd. Wrth bennu eu polisiau, dylai awdurdodau cynllunio roi sylw i'r potensial ar gyfer sŵn a chreu helynt arall drwy symud cerbydau i mewn ac allan o'r safle, gosod cerbydau ar y safle a gweithgareddau busnes ar y safle. Fodd bynnag, dylid asesu nifer y symudiadau cerbydau a ragamcanir ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn unigol ar gyfer pob safle. Ni ddylid gwrthod ceisiadau na fyddent ond yn achosi nifer gymhedrol o symudiadau cerbyd dyddiol ychwanegol ac/neu na fyddent yn cael effaith sylweddol ar ffyrdd llai.
42. Dylai lleiniau preswyl parhaol fod at ddibenion preswyl yn unig ac ni ddylid annog gweithgareddau a allai fod yn beryglus ar leiniau. Gall gweithgareddau peryglus ar safleoedd nad ydynt wedi eu dylunio at ddibenion gwaith arwain at bryderon amgylcheddol a phryderon o ran iechyd a diogelwch a llygredd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried darparu man gweithio penodol ar ran o'r safle sydd ar wahân i'r gweddill, pan fo rheswm amlwg pam y mae angen darparu cyfleusterau ar y safle. Er enghraifft, mae'n debygol y bydd angen cyfleusterau ar wahân ar safleoedd Siewmyn i storio a chynnal a chadw peiriannau ffair.
43. Gall fod sefyllfaoedd pan fo angen i Sipsiwn a Theithwyr storio offer a ddefnyddir yn eu gwaith neu fod angen tir pori arnynt, a bydd angen i'r awdurdod cynllunio benderfynu a yw'n bosibl darparu lle o'r fath a sicrhau ei fod wedi ei rannu'n ddigonol o'r ardaloedd preswyl.
44. Pan fo angen rhagor o le ar Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud a gwaith, dylid eu hannog i geisio sefydlu cytundeb rhentu preifat ar gyfer tir a/neu gyfleusterau cyfagos. Gallai awdurdodau lleol sydd â thir masnachol i'w osod, er enghraifft garejis, sicrhau bod y rhestrau hyn ar gael i drigolion safleoedd sy'n dymuno mynd ar y trywydd hwn, a dylent weithio'n rhagweithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr i ddod o hyd i gyfleusterau addas eraill.
45. Ceir rhagor o ganllawiau ar sut y dylid dylunio safleoedd ar gyfer grwpiau penodol o Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys Siewmyn Teithiol, yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru: Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.<sup>17</sup>

---

<sup>17</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

46. Pan fo ag achosion o wersylloedd diawdurdod<sup>18</sup> mewn awdurdod lleol gan fod Sipsiwn a Theithwyr yn 'pasio trwy' ardal ac nad oes gan yr awdurdod ddigon o leiniau tramwy, gellid nodi mannau aros dros dro i'w meddiannu am gyfnod byr. Mae mannau aros dros dro yn helpu i leihau gwersylloedd diawdurdod ac yn atal problemau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol wrth hwyluso ffordd o fyw draddodiadol y Sipsiwn a'r Teithwyr. Mae'n rhaid i fannau aros dros dro wneud darpariaethau ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra o leiaf.<sup>19</sup> Fodd bynnag, ateb byr dymor yn unig yw mannau aros dros dro, yn hytrach nag ateb hirdymor. Nid ydynt yn ddyraniadau cynllunio ac ni ddylid ymdrin â nhw drwy bolisïau dyranu tir mewn cynlluniau datblygu. Pan fo angen clir wedi ei nodi i ymdrin â Sipsiwn a Theithwyr sy'n pasio trwy ardal, byddai angen safleoedd tramwy.<sup>20</sup> Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn nodi'r gofyniad na cheir meddiannu'r safleoedd hyn am fwy na thri mis. Yn ogystal â hyn, mae hefyd yn rhoi hawl i feddianwyr lleiniau tramwy gael pedair wythnos o rybudd os yw'r awdurdod lleol yn bwriadu dod â'u meddiannaeth i ben yn gynnar am unrhyw reswm.

47. Mae nifer o ffyrdd i awdurdodau cynllunio nodi safleoedd penodol a sicrhau bod tir ar gael:

- Mae gan awdurdodau lleol y disgrisiwn i waredu tir am lai na'r ystyriaeth orau pan fydd hynny'n helpu i sicrhau bod lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal yn cael ei hybu a'i wella.<sup>21</sup>
- Dylai awdurdodau hefyd ystyried gwneud defnydd llawn o unrhyw gofrestri o dir na ddefnyddir neu a danddefnyddir sy'n eiddo i gyrrff cyhoeddus fel modd o nodi lleoliadau addas. Gallai tir gwag neu dir a danddefnyddir o eiddo'r awdurdod lleol fod yn briodol.
- Dylai awdurdodau hefyd ystyried a fyddai o bosibl yn briodol i ddefnyddio eu pwerau prynu gorfodol i gaffael safle priodol.
- Gall cydweithredu rhwng awdurdodau lleol cyfagos roi mwy o hyblygrwydd wrth nodi safleoedd tramwy.

---

<sup>18</sup> Dylai awdurdodau lleol gyfeirio hefyd at Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Reoli Gwersylloedd Diawdurdod (gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth) pan fyddant yn ymdrin â gwersylloedd diawdurdod mewn ardal ac yn penderfynu sut i'w datrys.

<sup>19</sup> Ceir rhagor o wybodaeth am fannau aros dros dro ym Mhenod 7 yn y ddogfen Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, a nodir yn Atodiad A.

<sup>20</sup> Ceir rhagor o wybodaeth am safleoedd tramwy ym Mhenod 6 o'r ddogfen Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, a nodir yn Atodiad A.

<sup>21</sup> Fel y nodir yng Nghylchlythyr 41/03 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, "Deddf Llywodraeth Leol 1972: Caniatâd Gwaredu Cyffredinol (Cymru) 2003: Cael Gwared ar Dir gan Awdurdodau am Bris Llai na'r Gorau".

48. Dylai awdurdod cynllunio, nad yw, mewn achos eithriadol, yn gallu diwallu'r holl anghenion sydd wedi eu hasesu ar gyfer y dyfodol drwy leoliadau safleoedd penodol nodi esboniad rhesymegol yn y cynllun datblygu pam na fu'n bosibl gwneud hynny, gan roi tystiolaeth berthnasol. Mae'n rhaid esbonio pa feini prawf a ddefnyddir i sicrhau digon o ddarpariaeth a nodi'r mesurau manwl y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod digon o ddarpariaeth wedi'i gwneud yn ystod cyfnod y cynllun.

### **Polisiâu yn seiliedig ar feini prawf**

49. Bydd angen polisiâu yn seiliedig ar feini prawf yn y cynllun datblygu er mwyn arwain y gwaith o benderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylai polisiâu yn seiliedig ar feini prawf o'r fath lynu at ofynion cynaliadwyedd, gan roi sylw i'r ystyriaethau safle a nodir o dan baragraff 37 a gofynion polisi cynllunio cenedlaethol eraill a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae'n rhaid i bolisiâu yn seiliedig ar feini prawf fod yn deg, yn rhesymol, yn realistig ac yn effeithiol wrth ddarparu safleoedd. Ni ddylid cynnwys polisiâu cynllunio sy'n atal neu sy'n rhoi cyfyngiadau gormodol ar ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr mewn cynlluniau datblygu.

50. Mae Atodiad B yn cynnwys canllawiau ar feini prawf arfer da. Mae gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ymyrryd yn y broses o wneud cynllun pan fydd yn ystyried bod y cyfyngiadau a gynigir gan awdurdodau cynllunio yn rhy fawr neu nad ydynt wedi eu cyfiawnhau'n ddigonol.

### **Monitro polisiâu Cynllun Datblygu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

51. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cynllunio lunio adroddiad monitro blynyddol (AMR). Yr AMR yw'r prif ddull ar gyfer adolygu perthnasedd a llwyddiant y cynllun datblygu a nodi unrhyw newidiadau angenrheidiol. Un o brif ddibenion yr AMR yw ystyried a yw'r amcanion a bennwyd yn y cynllun datblygu yn cael eu cyflawni. Mae'n ei gwneud yn ofynnol, pan nad yw polisi a bennir yn y cynllun datblygu yn cael ei weithredu; i'r adroddiad monitro blynyddol nodi'r polisi hwnnw. Dylai'r AMR nodi'n glir:

- y rhesymau pam nad yw'r polisi hwnnw'n cael ei weithredu;
- y camau (os oes rhai) y mae'r awdurdod cynllunio yn bwriadu eu cymryd i sicrhau y gweithredir y polisi; ac
- a yw'r awdurdod cynllunio yn bwriadu paratoi adolygiad o'r cynllun datblygu i ddisodli neu ddiwygio'r polisi hwnnw.

52. Ceir rhagor o ganllawiau yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol.<sup>22</sup>

---

<sup>22</sup> Cyfeiriwch at Adran 9. <https://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpmanual/?skip=1&lang=cy>



## PROSIECTAU DATBLYGU MAWR

53. Gallai fod angen adleoli safle Sipsiwn a Theithwyr yn barhaol neu dros dro yn sgil prosiect datblygu neu ailddatblygu mawr. Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau o'r fath, gallai fod yn briodol atodi amodau neu sicrhau rhwymedigaethau cynllunio sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r datblygwr nodi a darparu safle arall, ar yr amod bod y safle gwreiddiol yn un awdurdodedig. Dylai'r awdurdod cynllunio weithio gyda'r datblygwr a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yr effeithir arni i nodi safle (neu safleoedd) a fyddai'n addas i adleoli'r gymuned.
54. Wrth gynnig adleoli, bydd angen rhoi sylw i anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned Sipsiwn a Theithwyr a manteision posibl ei hadleoli i'r ardal leol a'r ardal ehangach. Bydd hefyd yn anghenrheidiol i sicrhau nad yw unrhyw adleoli yn effeithio ar hawliau cyfreithiol neu hawliau dynol trigolion y safle presennol.

## ARDALOEDD DYNODEDIG

55. Nodir polisiâu cynllunio cenedlaethol ar Leiniau Glas a Lletemau Glas ym Mholisi Cynllunio Cymru<sup>23</sup>. Ceir tybiaeth gyffredinol yn erbyn datblygiad amhriodol ar Leiniau Glas neu letemau glas. Mae safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar Leiniau Glas neu letemau glas yn debygol o fod yn ddatblygiadau amhriodol. Mae polisiâu cynllunio cenedlaethol ar Leiniau Glas neu letemau glas yn gymwys i geisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn yr un modd ag y maent yn berthnasol ar gyfer defnyddiau preswyl eraill. Dylid ystyried dewisiadau amgen cyn ystyried lleoliadau Llain Las neu letem las. Gellir osgoi pwysau i ddatblygu safleoedd ar Lain Las neu letem las fel arfer os yw'r awdurdod cynllunio yn neilltuo digon o safleoedd mewn mannau eraill yn ei ardal, i ddiwallu'r angen a nodwyd.
56. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu mewn ardaloedd â dyraniadau a gydnabyddir yn genedlaethol – o ran y dynodiadau tirwedd statudol<sup>24</sup>, rheoli datblygiadau<sup>25</sup> a dynodiadau cadwraeth natur statudol<sup>26</sup>. Mae'n rhaid cydymffurfio ag unrhyw ddyletswyddau statudol sy'n gysylltiedig â dynodiad. Mae'r canllawiau hynny yn gymwys i geisiadau cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl yn yr ardaloedd hynny, gan gynnwys safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
57. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnig rhagor o ganllawiau ar ddynodiadau tirwedd lleol a chadwraeth natur leol<sup>27</sup>. Dylid ystyried ceisiadau cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn unol â chanllawiau cynllunio cenedlaethol ar gyfer y dynodiadau hynny.

<sup>23</sup> Cyfeiriwch at Adran 4.8 o Bolisi Cynllunio Cymru

<sup>24</sup> Cyfeiriwch at Baragraff 5.3.3 o Bolisi Cynllunio Cymru

<sup>25</sup> Cyfeiriwch at Baragraff 5.3.6 o Bolisi Cynllunio Cymru

<sup>26</sup> Cyfeiriwch at Baragraff 5.3.8 o Bolisi Cynllunio Cymru

<sup>27</sup> Cyfeiriwch at Baragraff 5.3.2 a 5.3.11 o Bolisi Cynllunio Cymru

## CEISIADAU CYNLLUNIO

58. Mae Adran 38 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn pennu ei bod yn rhaid gwneud penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu, oni bai bod ystyriaethau sylweddol yn nodi fel arall. Bydd ystyriaethau eraill ar gyfer ceisiadau am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel arfer yn cynnwys yr effaith ar yr ardal o'u cwmpas, lefel bresennol y ddarpariaeth a'r angen am safleoedd y ceir tystiolaeth ohono yn rhan o Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yr ardal.
59. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn glir bod caniatâd personol yn eithriadau ac anaml iawn y byddent yn drech nag ystyriaethau cynllunio cyffredinol. Mae gallu'r ymgeiswyr i gael llety arall (neu'r diffyg gallu i gael llety arall) a'u hamgylchiadau personol penodol yn gallu bod yn ystyriaethau o bwys, cyhyd â bod amod wedi ei atodi at y caniatâd gan ei wneud yn bersonol i'r meddianwyr. Nid yw caniatâd personol yn berthnasol ac eithrio mewn sefyllfaoedd pan fo'n rhaid i ddefnydd neu ddatblygiad gweithredol ddod i ben a chael ei ddiddymu pan fo'r meddianwyr yn symud neu pan fod eu hamgylchiadau perthnasol yn newid fel arall.
60. Rhoddir cyfarwyddyd ar ganiatadau dros dro yng Nghylchlythyr 016/2014 a dim ond mewn amgylchiadau arbennig y dylid eu cyflwyno. Nodir tystiolaeth fanwl o'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gan bob awdurdod lleol yn rhan o'u Hasesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, a ddylai hysbysu'r ddarpariaeth o safleoedd yn y cynlluniau datblygu. Byddai darparu ar gyfer yr angen hwn felly yn cyfiawnhau rhoi caniatâd parhaol ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a dylai fod yn beth anghyffredin i roi caniatâd dros dro.
61. Wrth ystyried darpariaethau penodol ar gyfer safleoedd, dylid rhoi sylw i ddogfennau canllaw Llywodraeth Cymru ar Sipsiwn a Theithwyr – yn benodol, y ddogfen Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru wrth ystyried maint, cynllun a chyfleusterau safle.<sup>28</sup> Ceir safonau ar gyfer safleoedd preifat yn Safonau Enghreifftiol 2008 ar gyfer dogfen Safleoedd Carafanau yng Nghymru.<sup>29</sup> Gellir rhoi caniatâd i ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr y tu allan i ffiniau'r anheddiad yn amodol ar feini prawf cynaliadwyedd a nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol os nad oes unrhyw safleoedd realistig, addas ar gael o fewn neu gerllaw ffiniau'r anheddiad i letya Sipsiwn a Theithwyr (fel y'u diffinir o dan adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014).

---

<sup>28</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

<sup>29</sup> Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

62. I annog y ddarpariaeth o safleoedd preifat, dylai awdurdodau cynllunio gynnig cyngor a chymorth ymarferol â gweithdrefnau cynllunio i Sipsiwn a Theithwyr sy'n dymuno prynu eu tir eu hunain i'w ddatblygu. Dylai Sipsiwn a Theithwyr ymgynghori ag awdurdodau cynllunio bob tro ar faterion cynllunio cyn prynu tir y maent yn bwriadu sefydlu unrhyw safle carafanau arno, gan y bydd angen caniatâd cynllunio ar safle o'r fath bron bob tro (ceir rhagor o ganllawiau ar y ddwy agwedd hyn yn Atodiadau C a D).
63. Mae trafodaethau cyn gwneud cais yn hynod o bwysig er mwyn osgoi camddealltwriaeth a phroblemau dilynol yn ymwneud â chaniatâd cynllunio. Bydd ymgysylltu adeiladol a chadarnhaol ar bob ochr yn hybu ymddiriedaeth, a gallai helpu i osgoi torri rheolaethau cynllunio. Y nod, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ddylai fod i helpu Sipsiwn a Theithwyr ddarparu ar eu cyfer eu hunain, i ganiatáu iddynt sicrhau'r math o safleoedd y mae eu hangen arnynt, ond mewn lleoliadau sy'n briodol o ran polisi cynllunio. Byddai hyn yn helpu i osgoi torri rheolaethau cynllunio, ac yn galluogi gorfodi cadarn yn erbyn achosion o'r fath. Yn benodol, dylid datrys unrhyw amheuan am fynediad ffordd, argaeledd gwasanaethau, gwrthdaro posibl ag ymgymeryddion statudol neu fuddiannau amaethyddol, ac unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol ar y cyfle cynharaf. Yn unol â'r canllawiau yn TAN 15<sup>30</sup>, dylai awdurdodau cynllunio ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y perygl o lifogydd.
64. Dylid sefydlu unrhyw ffeithiau a allai fod yn berthnasol a'u hystyried cyn penderfynu ar geisiadau cynllunio. Dylai Sipsiwn a Theithwyr gydweithredu drwy ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n berthnasol i'w ceisiadau.
65. Ni ddylai awdurdodau cynllunio wrthod ceisiadau oherwydd nad oes gan yr ymgeisydd gysylltiadau lleol. Ond mae ganddynt yr hawl i wrthod ceisiadau mewn lleoliadau nad ydynt yn cydymffurfio â pholisïau cynllunio, yn enwedig pan fo'r awdurdod wedi cydymffurfio â'r canllawiau hyn ac wedi gweithredu'n briodol i sicrhau bod yr anghenion a nodir gan asesiadau o anghenion llety yn cael eu diwallu.
66. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried sut y gallent oresgyn gwrthwynebiadau cynllunio i gynigion penodol gan ddefnyddio amodau cynllunio neu rwymedigaethau cynllunio, gan gynnwys:
- a.) Cyfyngu ar y rhannau o'r safle y ceir eu defnyddio ar gyfer unrhyw weithgareddau peryglus, er mwyn lleihau'r effaith weledol a chyfyngu cymaint â phosibl ar yr effeithiau sŵn
  - b.) Pennu nifer y dyddiau y ceir defnyddio'r safle gan fwy na nifer y carafanau a ganiateir (sy'n caniatáu ar gyfer ymwelwyr ac ar gyfer digwyddiadau teuluol neu gymunedol).

---

<sup>30</sup> Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Gorffennaf 2004. Llywodraeth Cynulliad Cymru.

67. O dan amgylchiadau priodol, mae'n bosibl y bydd awdurdodau cynllunio yn gorfodi amodau i gyfyngu ar y gyfran o safle Siewmyn Teithiol y ceir ei gorchuddio ag offer ffair, a'r oriau pan ganiateir cynnal profion ar offer o'r fath, er mwyn diogelu amwynder lleol. Fodd bynnag, dylai awdurdodau cynllunio osgoi gorfodi amodau sy'n gwahardd naill ai defnydd preswyl neu gynnal a chadw offer (neu gyfyngu yn ddiangen ar yr oriau y ceir gwneud hyn), gan y byddai amodau o'r fath, yn ymarferol, yn dileu budd unrhyw ganiatâd ar gyfer safle parhaol i Siewmyn Teithiol.
68. Ni ddylid defnyddio amodau a rhwymedigaethau ac eithrio pan fyddent yn ei gwneud yn dderbyniol datblygu safle. Ni ddylent gael eu defnyddio i ohirio materion y gellir eu datrys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Atodiad B yn rhoi rhagor o ffynonellau o wybodaeth ar y defnydd o amodau a rhwymedigaethau mewn caniatâd cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.
69. Wrth ystyried gorfodi yn erbyn defnyddio tir fel safle Sipsiwn a Theithwyr neu wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd o'r fath, dylai awdurdodau cynllunio asesu pa effaith, os o gwbl, y byddai absenoldeb darpariaeth safle presennol yn ei chael ar y gallu i gymryd a chyfiawnhau camau gweithredu yn llwyddiannus mewn unrhyw apêl ddilynol. Dylai awdurdodau cynllunio roi sylw i Adran 103 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 – sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod arfer pwerau i ddiwallu unrhyw anghenion i ddarparu safle a nodir drwy ei Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr – wrth benderfynu ar gamau priodol i'w cymryd.

## **GORFODI**

70. Mae'n bwysig bod awdurdodau a rheolaethau cynllunio yn cael eu parchu gan bob rhan o'r gymuned a, phan fo'n hwylus i wneud hynny, bod camau gorfodi effeithiol yn cael eu cymryd gan yr awdurdod cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio weithio ar y cyd ag adrannau eraill yr awdurdod gan ddefnyddio'r ystod lawn o fesurau statudol ac anstatudol i ymdrin yn gyfannol â'r materion a godir gan wersylloedd diawdurdod.
71. Gwersyll diawdurdod yw pan fo carafanau a/neu gerbydau yn gwersylla ar dir heb ganiatâd y tiffeddiannwr neu'r preswlydd, sydd felly'n dresmasiad. Mae datblygiad diawdurdod yn cyfeirio at wersyll neu grŵp o garafanau a cherbydau ar dir a allai fod yn eiddo i'r meddiannwyr neu beidio, ond nad oes ganddo'r caniatâd cynllunio angenrheidiol.<sup>31</sup>

---

<sup>31</sup> Ceir rhagor o gyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau cynllunio ar ddatblygu diawdurdod yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu. <https://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?skip=1&lang=cy>

72. Wrth ystyried camau gorfodi yn erbyn datblygiad diawdurdod, mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu sawl dull o alluogi awdurdodau cynllunio i gymryd camau gorfodi, gan gynnwys:

- Hysbysiad gorfodi (a.172);
- Hysbysiad torri amod (a.187A);
- Hysbysiad stop (a.183);
- Hysbysiad stop dros dro (a.171E); a
- Gwaharddebau (a.187B).

73. Dylai awdurdodau cynllunio gael eu harwain gan y cyngor a geir yn y Llawlyfr Rheoli Datblygiadau<sup>32</sup>. Ceir rhagor o gyngor ar y pwerau gorfodi sydd ar gael i awdurdodau cynllunio, a'u defnydd, yn:

- Enforcing Planning Control: Legislative Provision and Procedural Requirements<sup>33</sup>; a
- Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod.<sup>34</sup>

### **Hysbysiadau Stop Dros Dro**

74. Mae adrannau 171 E i 171H o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer hysbysiadau stop dros dro. Ceir defnyddio'r gallu i gyflwyno hysbysiad stop dros dro i atal ar unwaith unrhyw waith datblygu pellach ar dir fel safle Sipsiwn a Theithwyr er mwyn atal dwysáu pellach am gyfnod o 28 o ddiwrnodau. Yn ystod yr amser hwn caiff yr awdurdod cynllunio benderfynu pa gamau gorfodi i'w cymryd, gan ddefnyddio'r dulliau eraill sydd ar gael iddynt yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sydd fwyaf priodol i fynd i'r afael â'r achos hwn o dorri rheolaethau cynllunio.

75. Nid oes hawl i apelio yn erbyn hysbysiad stop dros dro felly cyn cyflwyno un, dylai'r awdurdod cynllunio ystyried, yn yr un modd â'r holl gamau gorfodi, eu dyletswyddau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, Deddf Cydraddoldeb 2010 a hefyd Deddf Tai (Cymru) 2014. Pan fo awdurdod lleol wedi nodi angen nas diwallwyd am lety i Sipsiwn a Theithwyr, dylai hyn fod yn ystyriaeth o bwys yn eu penderfyniad i gyflwyno hysbysiad stop dros dro neu beidio yn erbyn safle diawdurdod.

---

<sup>32</sup> <https://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy>

<sup>33</sup> Cylchlythyr 24/97 y Swyddfa Gymreig

<sup>34</sup> Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dyddiedig 2013. Gweler Atodiad A i gael rhagor o wybodaeth.

## **APELIADAU**

76. Bydd yna achlysuron pan fydd awdurdodau cynllunio yn gwrthod caniatâd cynllunio i safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Bydd Arolygydd Cynllunio yn penderfynu ar unrhyw apêl ddilynol yn unol â'r cynllun datblygu a'r holl ystyriaethau eraill o bwys a ddylai eisoes fod wedi cael sylw yn y cam ymgeisio. Bydd y rhain yn cynnwys y GTAA sydd ar gael, y safleoedd sydd eisoes yn bodoli a'r rhai a gynllunir a'r angen am safleoedd yn ardal yr awdurdod cynllunio, cywirdeb y data a ddefnyddir i asesu'r angen, y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr asesiad o anghenion a pha mor gyfredol ydyw, gwybodaeth ar y lleiniau sydd ar gael ar safleoedd cyhoeddus a phreifat, amgylchiadau personol a dewisiadau llety eraill.

## **HAWLIAU DYNOL A CHYFLE CYFARTAL**

77. Dylid ystyried darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 sy'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn cyfraith ddomestig yn rhan annatod o brosesau gwneud penderfyniadau awdurdodau lleol – gan gynnwys y dull o ymdrin â'r cwestiwn ynghylch pa ystyriaethau sy'n rhai o bwys mewn achosion cynllunio. Dylai awdurdodau cynllunio ystyried canlyniadau gwrthod neu roi caniatâd cynllunio, neu gymryd camau gorfodi, ar hawliau'r unigolion dan sylw, y Sipsiwn a'r Teithwyr a'r trigolion lleol, ac a yw'n angenrheidiol ac yn gymesur yn yr amgylchiadau. Os oes unrhyw amheuaeth am y defnydd o ddarpariaethau'r Confensiwn mewn achosion penodol, dylid ceisio cyngor cyfreithiol. Nid yw'r rheidrwydd i awdurdodau cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n cyd-fynd â hawliau'r confensiwn yn rhoi'r hawl i Sipsiwn a Theithwyr sefydlu safleoedd yn groes i reolaethau cynllunio.

78. Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu ar sail hil gan awdurdodau cynllunio wrth ymgymryd â'u swyddogaethau cynllunio. Yn ogystal â hyn, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf 2010 i geisio gweithredu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon a hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau cadarnhaol ym maes hil ym mhopeth y maent yn ei wneud. Mae Cynllun Cynnwys Cymunedau y cynllun datblygu yn arbennig o bwysig yn hyn.

79. Pan newidir polisiâu neu pan gyflwynir rhai newydd, dylai awdurdodau asesu ac ymgynghori ar eu heffaith debygol, a phan nodir effaith andwyol na ellir ei gyfiawnhau, dylid gwneud newidiadau. Mae'n arbennig o bwysig bod awdurdodau yn ystyried yr holl grwpiau hil y mae'r awdurdod yn eu gwasanaethu er mwyn asesu effaith eu polisiâu ar y grwpiau hyn. Mae Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig wedi'u cydnabod gan y Llysoedd fel grwpiau ethnig ar wahân, a gwmpesir gan Ddeddf 2010. O dan y ddyletswydd gyffredinol a nodir uchod, ceir gofyniad i awdurdodau lleol geisio hybu cysylltiadau da rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned leol. Mae hyn yn bwysig yng nghyd-destun cynllunio safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

## **MONITRO CEISIADAU CYNLLUNIO**

80. Dylai awdurdodau cynllunio fonitro a dadansoddi'n feirniadol y penderfyniadau ar geisiadau am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Dylai awdurdodau ddefnyddio canlyniadau dadansoddiadau o'r fath i lywio'r gwaith o ddatblygu polisiâu. Yn hyn o beth, cynghorir awdurdodau cynllunio i gynnal rhestr barhaus o'r holl geisiadau cynllunio y maent yn eu derbyn i ddatblygu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Gallent ddefnyddio'r rhestr hon i fonitro canlyniadau ceisiadau cynllunio o'u cymharu â'r angen am lety a nodwyd yn eu Hasesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr. Gallai casglu data o'r fath ddarparu sail dystiolaeth ddefnyddiol i hysbysu'r ddarpariaeth o safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wrth baratoi, monitro ac adolygu cynllun datblygu.

## ATODIAD A

### Cyfeiriadau a Rhestr o Sefydliadau o ddi-ddordeb i Sipsiwn a Theithwyr

#### CYFEIRIADAU

Canllawiau Cynnal Aseidiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru, Mai 2015

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150223-gypsy-traveller-accommodation-assessmentsv2-cy.pdf>

Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod 2013, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2013

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/131220-guidance-managing-unauthorised-camping-2013-cy.pdf>

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (Chwefror 2007) Good Practice Note 4 Series: Planning for Gypsies and Travellers.

<http://rtpi.org.uk/knowledge/publications/planning-for-gypsies-and-travellers/>

Canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru, Mai 2015

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150528-designing-gypsy-and-traveller-sites-cy.pdf>

Canllawiau Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Mai 2015

<https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/150528-managing-gypsy-and-traveller-sites-cy.pdf>

Cynllunio'ch Cymuned: Llyfryn cyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol (Llyfryn Llywodraeth Cynulliad Cymru Gorffennaf 2006)

<https://gov.wales/topics/planning/policy/policy-and-guidance-on-development-plans/ldpguide/?skip=1&lang=cy>

Model standards 2008 for Caravan Sites in Wales (Saesneg yn unig) (Dogfen Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2008)

<https://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/publications/model-standards-2008-for-caravan-sites-in-Wales/?skip=1&lang=cy>



## **SEFYDLIADAU**

### ***Llywodraeth Cymru***

Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant  
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus  
Llywodraeth Cymru  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

[Equalityandprosperitymailbox@gov.wales](mailto:Equalityandprosperitymailbox@gov.wales)

### ***Sefydliadau yng Nghymru:***

#### **Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen**

Tros Gynnal Plant  
Goldtops House  
8a Pentonville  
Casnewydd  
NP20 5HB  
01633 509 544  
Llinell Gyngor Radffon: 0808 802 0025  
[travellingahead@trosgynnalplant.org.uk](mailto:travellingahead@trosgynnalplant.org.uk)  
[www.travellingahead.com](http://www.travellingahead.com)

#### **Sipsiwn a Theithwyr Cymru**

Canolfan Gymunedol Trowbridge  
Ffordd Caernarfon  
Trowbridge  
Caerdydd  
CF3 1RU  
029 2021 4411  
[info@gtwales.org.uk](mailto:info@gtwales.org.uk) <mailto:admincgtp@btconnect.com>

#### **Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent (yn gwasanaethu ardaloedd Casnewydd, Torfaen a Blaenau Gwent)**

07773 250 015  
01633 833 540  
[gtreferrals@gwalia.com](mailto:gtreferrals@gwalia.com)

#### **Cwmni Celf a Diwylliant Romani**

Temple Court  
13a Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9HA  
[isaacblake@romaniarts.co.uk](mailto:isaacblake@romaniarts.co.uk)  
<http://www.romaniarts.co.uk>

**The Bridges Project**

Merthyr Tudful  
01685 353959  
[Lb2@smt.org.uk](mailto:Lb2@smt.org.uk)

**The Showmen's Guild of Great Britain (*Siewmyn Teithiol yn unig*)**

De Cymru –  
7 Rhigos Gardens  
Caerdydd  
CF24 4LS  
07949 289 075  
[Sgwales1@gmail.com](mailto:Sgwales1@gmail.com)

Gogledd Cymru –  
11 St. Mary's Place  
Bury  
Swydd Gaerhifryn  
BL9 0DZ  
01617 629 502  
[leesashowmensguild@yahoo.com](mailto:leesashowmensguild@yahoo.com)  
<http://www.showmensguild.co.uk>

**The Travellers School Charity (*Teithwyr Newydd yn unig*)**

Tŷ Loveden House  
26 Bridge Street  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 1QB  
07786 466 107  
[info@travellersschool.org.uk](mailto:info@travellersschool.org.uk)  
<http://www.travellersschool.org.uk>

**Cymorth Cynllunio Cymru**

Llawr Cyntaf  
174 Heol yr Eglwys Newydd  
Caerdydd  
CF14 3NB  
02920 625000  
<http://www.planningaidwales.org.uk>

**Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru**

Bloc 1  
Cainc D  
Adeiladau Llywodraeth  
Heol Santes Agnes  
Caerdydd  
CF14 4YY  
02920 447710  
[Wales@equalityhumanrights.com](mailto:Wales@equalityhumanrights.com)

**Sefydliadau cymorth cymunedol eraill y DU:**

**The Traveller Movement**

The Resource Centre  
356 Holloway Road  
Llundain  
N7 6PA  
020 7607 2002  
[info@travellermovement.org.uk](mailto:info@travellermovement.org.uk)  
<http://www.travellermovement.org.uk>

**Friends, Families and Travellers**

Community Base  
113 Queens Road  
Brighton  
BN1 3XG  
01273 234777  
[Fft@gypsy-traveller.org](mailto:Fft@gypsy-traveller.org)  
[www.gypsy-traveller.org](http://www.gypsy-traveller.org)

**The National Federation of Gypsy Liaison Groups**

c/o Derbyshire Gypsy Liaison Group  
1-3 Ladygrove Mill  
Lady Grove Road  
Two Dales  
Matlock  
DE4 2FG  
01629 732744  
[natglg@outlook.com](mailto:natglg@outlook.com)  
<http://www.nationalgypsytravellerfederation.org>

**The Gypsy Council** (dros Addysg, Diwylliant, Lles a Hawliau Sifil)

8 Hall Road  
Aveley  
Romford  
Essex  
RM15 4HD  
07963 565 952  
[info@gypsy-association.com](mailto:info@gypsy-association.com)  
<http://www.gypsy-association.com>

### Arfer Da – Meini Prawf

1. Mae gan Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau a chyfrifoldebau yn y system gynllunio â phob dinesydd arall. Dylai polisïau a meini prawf cynllunio ar gyfer sefydlu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fod yn deg, yn rhesymol, yn realistic ac yn effeithiol, ac wedi'u hysgrifennu mewn modd cadarnhaol sy'n cynnig rhywfaint o sicrwydd y rhoddir caniatâd cynllunio os yw'r meini prawf (dim pob un o reidrwydd) wedi'u bodloni.
2. Dylid osgoi polisïau cynllunio amwys sy'n nodi ei bod y bosibl y caiff caniatâd ei roi neu y bydd yr awdurdod yn ystyried ffactorau oherwydd eu bod yn cynyddu ansicrwydd. Gallai geiriad amgen gynnwys 'bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi "yn amodol ar fodloni [yn glir] y gofynion/meini prawf canlynol...".
3. Ni ddylai'r rhestr o feini prawf a fabwysiadir gan awdurdod cynllunio fod yn ormodol oherwydd po fwyaf o feini prawf sydd, y mwyaf cyfyngol y byddant, a'r mwyaf tebygol y bydd i awdurdodau wrthod caniatâd cynllunio. Dylid defnyddio dull mwy cadarnhaol i ddarparu'n ddigonol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau priodol – yn arbennig gan yr awdurdodau cynllunio hynny sy'n cyflwyno polisïau sydd wedi methu â bodloni anghenion presennol. Bydd y broses o fabwysiadu meini prawf yn y cynlluniau datblygu yn destun craffu agos.
4. Ar gyfer pob math o safleoedd, mae'n rhaid ystyried mynediad i gerbydau o'r briffordd gyhoeddus, yn ogystal â darparu lle i barcio, troi a gwasanaethu ar y safle, a diogelwch ffordd i feddianwyr ac ymwelwyr. Gall tirweddu a phlannu coed a pherthi priodol helpu safleoedd i gydweddu â'r ardal leol, rhoi strwythur a phreifatrwydd, a chynnal amwynder gweledol. Gall amgáu safle â gormod o dirweddu caled, waliau uchel neu ffensys roi'r argraff o ynysu'r safle a'i feddianwyr o weddill y gymuned yn fwriadol, yn ogystal â bod yn ymwithiol yn weledol – dylid osgoi'r ddwy sefyllfa.
5. Dylid ystyried safleoedd o fewn eu cyd-destun ac o ran y seilwaith lleol, maint a dwysedd y boblogaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur â chymunedau lleol sefydledig. Mae rhagor o arweiniad ar faint safleoedd a'u cynllun ar gael yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, y cyfeirir atynt yn Atodiad A o'r ddogfen hon.

## Meini prawf annerbyniol

6. Ni fu'n anghyffredin i feini prawf fod mor gyfyngol ac eang ei bod yn amhosibl neu bron yn amhosibl yn ymarferol i gais gydymffurfio â phob un ohonynt. Daw'r meini prawf canlynol o gynlluniau awdurdodau lleol ac maent yn enghreifftiau o feini prawf yr ystyrir eu bod yn gyffredinol **annerbyniol**:

***'Bydd y meddiannydd/meddianwyr yn dod â phob uned o lety i'r safle am y tro a bydd/byddant hefyd yn symud y llety oddi ar y safle pan fydd yn peidio â chael ei ddefnyddio at ddibenion preswyl'.***

Nid yw'r maen prawf hwn yn darparu ar gyfer y ffordd o fyw traddodiadol a nomadaidd, lle mae gan lawer o Sipsiwn a Theithwyr un garafán i fyw ynddi, ac un sy'n fwy symudol sy'n cael ei defnyddio wrth deithio.

Nid yw gofyniad i'r meddiannydd ddod â'r llety i'r safle yn caniatáu ar gyfer darparu ar gyfer aelodau eraill o'r teulu nad oes modd iddyn nhw symud eu llety eu hunain yn ffisegol i'r safle, oherwydd salwch efallai.

***'Ni fydd mwy na [x] o garafanau' (ar unrhyw safle)***

Mae pennu uchafswm yn bolisi cyffredinol trwy bolisi cynllun datblygu yn fypwyl.

Dylid nodi unrhyw uchafswm o garafanau y ceir eu cadw ar unrhyw safle penodol trwy amod cynllunio ar ôl ystyried amgylchiadau'r cais cynllunio unigol a fyddai'n cynnwys maint penodol safle, maint a dwysedd y boblogaeth gyfagos a gofynion yr ymgeisydd.

***'Ni fydd ceisiadau gan Sipsiwn a Theithwyr heb unrhyw gysylltiad lleol yn cael eu caniatáu fel rheol'***

Mae Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn nomadaidd, felly ni fydd ganddynt gysylltiadau lleol bob tro. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio benderfynu ar geisiadau datblygu gan unrhyw un sy'n eu cyflwyno.

Wrth i'r busnes y mae Sipsiwn a Theithwyr wedi ei gynnal yn draddodiadol ddirywio, mae'r fasnach a'r busnesau newydd y maen nhw'n ymgysylltu â nhw yn aml yn ei gwneud yn ofynnol i symud i leoliadau newydd a chyflogaeth â chyflog sefydlog.

Nid yw'n briodol ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr fod â chysylltiad lleol i lwyddo cael caniatâd cynllunio.

***“Nid yw’r safle yn effeithio ar unrhyw ardal sydd â buddiant naturiol/bywyd gwyllt”***

Bydd pob datblygiad wrth ei natur yn effeithio rhywfaint ar fywyd gwyllt. Dylai’r meini prawf fod wedi’u diffinio’n fwy trylwyr ond yn rhesymol.

***“Ni chaiff y safle gorgyffwrdd â chefn gwlad”***

Mae hyn yn afrealistig. Mae polisïau o’r fath wedi’u defnyddio i atal darpariaeth safleoedd.

***“Ni chaniateir safleoedd oni bai bod angen clir nas diwallwyd wedi’i nodi yn yr Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr”***

Byddai hyn yn annerbyniol oherwydd ei bod yn mynd yn groes i ryddid symud Sipsiwn a Theithwyr sy’n dymuno datblygu eu safleoedd eu hunain. Ni fyddai cyfyngiadau o’r fath yn cael eu rhoi i bobl nad ydynt yn Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi symud i ardal newydd ac sy’n dymuno adeiladu tŷ.

Edrychwch hefyd ar y canlynol sy’n rhoi gwybodaeth am amodau a awgrymir mewn caniatadau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr:

- Cylchlythyr 016/2014, Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu (Saesneg yn unig), Llywodraeth Cymru
- Dolen i amodau enghreifftiol a gyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio: <https://gov.wales/topics/planning/appeals/model-conditions/?skip=1&lang=cy>

Dylid cyfeirio at Gylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig, Rhwymedigaethau Cynllunio i gael gwybodaeth am ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer caniatâd cynllunio.

## Canllawiau i Awdurdodau Cynllunio ar gyfer ymdrin â cheisiadau cynllunio gan Sipsiwn a Theithwyr

1. Mae gan Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau a chyfrifoldebau yn y system gynllunio â phob un arall sy'n gwneud cais cynllunio. Wrth ymdrin â cheisiadau ac ymholiadau gan Sipsiwn a Theithwyr, dylai swyddogion cynllunio a staff yr adran gynllunio weithredu mewn modd proffesiynol a thrin ymholiadau gan Sipsiwn a Theithwyr yn deg. Mae Cymorth Cynllunio Cymru (manylion cyswllt ar gael yn Atodiad A) yn ffynhonnell o gyngor a gwybodaeth annibynnol am ddim i Sipsiwn a Theithwyr.
2. Mae'n arbennig o bwysig bod awdurdodau cynllunio yn sefydlu lefel o ymddiriedaeth a chydweithrediad â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr leol er mwyn osgoi datblygiadau diawdurdod. Mae safbwyntiau anhyblyg ar y ddwy ochr yn debygol o arwain at densiwn, anghydfod ac oedi.
3. Mae'n bosibl yr hoffai awdurdodau cynllunio ystyried penodi person enwebedig i ymdrin â phob ymholiad/cais o'r fath, neu benodi person enwebedig i fod yn gyswllt i ymgeiswyr. Dylid rhoi hyfforddiant penodol i'r staff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau Sipsiwn a Theithwyr.
4. Mae angen i awdurdodau cynllunio ddarparu cyngor cyn-ymgeisio cynnar a chlr ac mae'n bosibl y byddent yn dymuno ystyried creu taflenni sy'n esbonio'r system gynllunio, ac ystyried defnyddio cyfryngau eraill – megis fideo/dvd a chyfathrebu sain – pan fyddai hyn yn well i ddiwallu anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Yn yr un modd, dylid rhoi esboniad cynnar o'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn-ymgeisio statudol, a'r amrywiaeth o wasanaethau cyn-ymgeisio dewisol, y gellid eu darparu gyda neu heb ffi gysylltiedig.<sup>35</sup> Mewn unrhyw gyfarfod cyn-ymgeisio, dylai awdurdodau cynllunio roi syniad anffurfiol o'r tebygolrwydd o gael caniatâd, amlygu unrhyw anawsterau posibl a pha un a oes modd eu goresgyn, ac esbonio'r broses gynllunio i'r rhai sy'n gwneud cais nad ydynt yn gyfarwydd â'r broses.
5. Mae angen i awdurdodau cynllunio roi gwybod i Sipsiwn a Theithwyr am y safonau y gallan nhw eu disgwyl gan yr awdurdod, y safonau a ddisgwylir ganddyn nhw a'u hawliau i gwyno, gan gynnwys i swyddog monitro yr awdurdod a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

---

<sup>35</sup> Mae rhagor o wybodaeth am y ffioedd sy'n daladwy i awdurdodau cynllunio o ran gwasanaethau cyn-ymgeisio ar gael yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu.  
<https://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/development-management-manual-without-annexes/?skip=1&lang=cy>

6. Mae'n bosibl y bydd angen i adrannau cynllunio ymgynghori ag adrannau ac asiantaethau eraill sydd â buddiant, yn arbennig adrannau tai, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, ac awdurdodau iechyd a phriffyrdd. Mae Swyddogion Cyswllt Sipsiwn (neu gyfatebol) yn ffynhonnell bwysig arall o gyngor, ac maen nhw fel arfer, ond nid bob amser, wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle y gwneir y Swyddogion hynny ar gael ar gyfer cysylltu â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.



## ATODIAD D

### Canllawiau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n gwneud ceisiadau cynllunio

#### Cyflwyniad

1. Mae gan aelodau cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yr un hawliau a chyfrifoldebau yn y system gynllunio ag aelodau cymunedau eraill. Mae angen caniatâd cynllunio fel arfer ar gyfer unrhyw newid i ddefnydd tir. Yn yr un modd â datblygiad a gyflwynir gan unrhyw un arall, yr unig adeg na fyddai angen caniatâd yw:
  - i. os yw'r tir eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer math arbennig o ddefnydd tir a'r math hwn o ddatblygiad fydd yn digwydd ar y tir; neu
  - ii. mae'r defnydd tir wedi'i sefydlu dros gyfnod o amser heb i'r awdurdod cynllunio gymryd camau gorfodi cynllunio dilys. Y cyfnod hwn yw 4 blynedd ar gyfer adeilad neu waith ffisegol tebyg arall nad yw'n cynrychioli newid defnydd tir, neu 10 mlynedd pan fo'r datblygiad wedi cynrychioli newid defnydd tir. Mae lleoli carafanau ar dir yn ddefnydd tir mewn cyd-destun cynllunio.

#### Gweithdrefn cyn-ymgeisio

2. Wrth edrych am safle, dylai Sipsiwn a Theithwyr ddarganfod
  - i. a oes unrhyw safle presennol yn yr ardal leol (sydd â chaniatâd cynllunio) ar gael i'w rentu neu ei brynu;
  - ii. os nad oes, a all yr awdurdod cynllunio nodi unrhyw safle a allai fod ar gael.
3. Os yw canlyniad yr ymholiadau a nodir uchod yn negyddol a'ch bod yn ceisio datblygu safle newydd, mae'n debygol y bydd angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio. Pan fydd yr awdurdod cynllunio yn ystyried eich cais, bydd yn edrych yn gyntaf i weld beth y mae ei gynllun datblygu yn ei ddweud am y safle yr ydych wedi'i ddewis.

4. O ganlyniad i hyn, **cyn ymrwymo i safle a gwneud cais am ganiatâd cynllunio, dylech gymryd y camau canlynol.** Mae hyn i sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau amlwg a fyddai'n eich atal rhag datblygu'r safle ac ymrwymo i wariant diangen:-
- i. cysylltu â'r awdurdod cynllunio<sup>36</sup> er mwyn nodi polisiau'r cynllun datblygu sy'n berthnasol i ddefnydd safle carafanau Sipsiwn a Theithwyr a sefydlu a yw'r safle y mae gennych chi ddiddordeb ynddo mewn Llain Las, lletem las neu ardal arall sydd â gwarchodaeth arbennig. Mae datblygiad mewn ardaloedd o'r fath yn destun rheolaeth lymach ac mae'r tebygolrwydd o gael caniatâd cynllunio lawer yn is fel rheol na phe na bai'r safle mewn ardal â'r warchodaeth arbennig hon. Gall awdurdodau cynllunio godi ffi am unrhyw wybodaeth a roddir am safle a chais cyn i gais cynllunio gael ei gyflwyno. Pan fyddwch yn cysylltu â'r awdurdodau cynllunio, gallant roi gwybod i chi am unrhyw ffioedd sy'n daladwy.
  - ii. paratoi gwybodaeth gan nodi
    - yr ardal yr ydych yn chwilio am safle ynddi
    - a oes rhesymau penodol dros ddewis y safle yr ydych wedi'i ddewis e.e. amgylchiadau teulu, gwaith neu ofynion eraill
    - a oes safleoedd eraill ar gael ac os felly pam y maent yn anaddas yn eich barn chi
    - nifer y carafanau yr ydych yn dymuno eu cadw ar y safle.
  - iii. paratoi asesiad o addasrwydd y safle a defnydd y safle o ran:
    - mynediad i gerbydau a cherddwyr
    - pa mor agos ydyw at y rhwydwaith priffyrdd
    - cyflwr y ddaear a lefelau'r tir
    - pa mor agos ydyw at ysgolion a chyfleusterau eraill
    - presenoldeb tirweddu neu a fyddai modd sgrinio'r safle trwy blannu rhagor o blanhigion

---

<sup>36</sup> Adran Gynllunio yr awdurdod lleol fydd hyn oni bai bod y tir o fewn ardaloedd Parciau Cenedlaethol y Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro neu Eryri – os yw'r tir o fewn Parc Cenedlaethol, dylech gysylltu ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

- y defnydd tir presennol a blaenorol ar gyfer y safle ac a yw'n gydnaws â'r defnydd o dir cyfagos
  - cysylltiadau â gwasanaethau hanfodol megis dŵr a thrydan
- iv. Dylech hefyd ystyried chwilio'r cofrestrï pridiannau tir lleol (sydd gan yr awdurdod lleol) i sefydlu a oes unrhyw gyfyngiadau (fel gwaharddebau) ar y defnydd tir.
5. Pan fyddwch chi wedi cyflawni hyn i gyd, dylech ofyn am gyfarfod â swyddogion yr awdurdod cynllunio i drafod eich cynigion a'r wybodaeth a roddir. Byddant yn rhoi eu barn broffesiynol i chi ar yr achos yr ydych wedi'i baratoi ac efallai awgrymu ffyrdd y gallai fod yn fwy derbyniol i'r awdurdod cynllunio. Fodd bynnag, ni fydd modd iddynt roi unrhyw sicrwydd i chi y byddwch yn cael y caniatâd cynllunio. Y Pwyllgor Cynllunio sy'n gwneud y penderfyniad hwnnw gan amlaf.

### **Gwneud y cais cynllunio**

6. Dylech gyflwyno eich cais cynllunio ac aros am ganiatâd *cyn* i chi fynd ar y safle. Mae'n debygol y bydd mynd i'r safle heb ganiatâd cynllunio yn torri'r rheolaethau cynllunio a gallai arwain at gamau gorfodi.
7. Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais am safle carafanau Sipsiwn a Theithwyr, dylech roi cymaint o fanylion â phosibl o'r dechrau gan gynnwys cynllun y safle, tirlunio, mynediad a nifer y carafanau.

### **Beth fydd yn digwydd nesaf?**

8. Bydd awdurdodau cynllunio fel arfer yn penderfynu ar geisiadau cynllunio o fewn wyth wythnos o'r adeg y cânt eu cyflwyno. Os yw'r awdurdod cynllunio yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych am y cais yn ystod yr amser hwn, dylech gydweithredu drwy ymateb i unrhyw gais o'r fath yn briodol. Os rhoddir caniatâd cynllunio i chi, mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw amodau sy'n cyd-fynd â'r caniatâd. Gall eich awdurdod cynllunio eich cynghori ar y broses hon os oes angen unrhyw gymorth arnoch. Os gwrthodir caniatâd cynllunio i chi, neu os yw'r awdurdod cynllunio yn methu â phenderfynu ar y cais o fewn y cyfnod o 8 wythnos (neu gyfnod hirach y gallech fod wedi cytuno iddo â nhw), mae gennych yr hawl i apelio i Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid cyflwyno apel o fewn 6 mis i'r dyddiad y gwrthodwyd y caniatâd cynllunio neu'r dyddiad pan ddylid bod wedi penderfynu ar y cais (diwedd y cyfnod o 8 wythnos neu unrhyw gyfnod hirach y gallech chi fod wedi cytuno arno).

Mae manylion am sut i gyflwyno apêl a sut y mae'r broses apelio yn gweithio ar gael yn adran Apeliadau Cynllunio gwefan Llywodraeth Cymru: <https://gov.wales/topics/planning/appeals/?skip=1&lang=cy>, neu gan:

Arolygiaeth Cynllunio Cymru  
Adeiladau'r Goron  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

Rhif ffôn: 029 2082 3866  
Ffacs: 029 2082 5150  
E-bost: [wales@pins.gsi.gov.uk](mailto:wales@pins.gsi.gov.uk)

9. Dylai Sipsiwn a Theithwyr fod yn ymwybodol o **Cymorth Cynllunio Cymru**, gwasanaeth gwirfoddol a ariennir drwy grant gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyngor a chymorth annibynnol a phroffesiynol am ddim ar faterion cynllunio trefol i grwpiau cymunedol ac unigolion na allant fforddio cyflogi ymgynghorydd cynllunio:

Cymorth Cynllunio Cymru  
Llawr Cyntaf  
174 Heol yr Eglwys Newydd  
Y Mynydd Bychan  
Caerdydd  
CF14 3NB

Rhif ffôn: 029 2062 5000  
E-bost: Llenwch ffurflen ar-lein ar y wefan a restrir isod.  
Gwefan: [www.planningaidwales.org.uk](http://www.planningaidwales.org.uk)